Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol
Cultural Trust

# Amlinelliad o'r Swydd

## Teitl y Swydd:
Parcmon Parc Gwledig

## Sail:
Llawn Amser

## Cyflog:
Gradd 8

## Statws:
Parhaol

## Lleoliad:
Parc Gwledig Bryngarw

## Yn atebol i:
Rheolwr y Parc Gwledig

## Yn atebol am:
Amherthnasol

## Eich Rôl:

Cynorthwyo â gofal cyffredinol yr holl faterion sy'n ymwneud â Pharc Gwledig Bryngarw. Annog ein hymwelwyr i fwynhau'r awyr agored wrth hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r amgylchedd naturiol ym Mharc Bryngarw. Byddwch yn cynorthwyo gyda dyletswyddau rheoli cefn gwlad a chyflawni ein rhaglen addysgol.
.

# Yn y swydd, byddwch yn:

- Cynnal gweithgareddau yn y parc o ddydd i ddydd gan gynnwys agor a chau'r parc, rheoli gwastraff, gwiriadau toiled rheolaidd, cynnal a chadw a thasgau rheoli cefn gwlad eraill.
- Darparu gweithgareddau a phrofiadau i'n hymwelwyr a allai gynnwys, teithiau tywys gan barcmon ac ymweliadau addysgol.
- Ymgymryd â gwaith cynnal a chadw mewn safle penodol yn unol â chynlluniau rheoli priodol, er mwyn sicrhau bod y safleoedd yn addas i'w defnyddio ac yn ddiogel i bawb, gallai hyn gynnwys gweithredu peiriannau ac offer sy'n gysylltiedig â dyletswyddau rheoli tir a chynnal a chadw.
- Bod yn weladwy ac ar gael i gynorthwyo'r cyhoedd a chynnal digwyddiadau rheolaidd 'Cwrdd â'r Parcmon' yn y ganolfan ymwelwyr i ddarparu arweiniad a gwybodaeth am hanes, treftadaeth a gweithrediadau Parc Bryngarw.
- Cymryd rhan a chynorthwyo gyda thasgau cadwraeth, arolygon ac ati, yn ôl yr angen.
- Cynorthwyo gyda chydlynu a chefnogi tasgau o ddydd i ddydd i wirfoddolwyr.
- Delio â materion adweithiol gan gynnwys ymholiadau gan ymwelwyr a allai gynnwys digwyddiadau cymorth cyntaf, ymholiadau peiriant maes parcio, archebion ar gyfer ein Canolfan Addysg, Y Nyth ac ati.
- Rheoli cynefinoedd ar draws y parc i gynnal amodau ffafriol i fywyd gwyllt.
- Dyletswyddau gweinyddol a marchnata cyffredinol.

awen

# Dyletswyddau a Chyfrifoldebau Cyffredinol:

- Bod yn gyfrifol am eich diogelwch eich hun a diogelwch staff eraill ac unrhyw aelod o'r cyhoedd y gallai eich gweithredoedd a'ch anweithredoedd effeithio arnynt yn y gwaith.
- Cymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau hyfforddi a datblygu i gynnal eich datblygiad eich hun neu i wella cymhwysedd o fewn swydd.
- Cynnal ac integreiddio ein diben a'n gwerth ym mhopeth a wnewch.
- Sicrhau bod gweithgareddau'n cael eu cwblhau yn unol ag ymrwymiad Awen i degwch ac amrywiaeth ac yn unol ag arfer gorau a deddfwriaeth.
- Nid yw hwn yn ddatganiad cyflawn o'r holl ddyletswyddau a chyfrifoldebau sy'n ffurfio'r swydd hon, ac efallai y bydd yn rhaid eu hamrywio i ddiwallu anghenion newidiol y busnes.

# Manyleb Person

## Y Person (NODIR MEINI PRAWF HANFODOL FEL **(H)**:

- Ymagwedd ac agwedd hyblyg a rhagweithiol.
- Diddordeb mewn gweithio o fewn Parc Gwledig gydag aelodau o'r cyhoedd.
- Ymrwymiad i ddarparu gwasanaeth rhagorol i gwsmeriaid.
- Y gallu i ymgymryd â gweithgareddau corfforol gan gynnwys cario, codi a defnyddio peiriannau (H)
- Y gallu i weithio heb oruchwyliaeth (H)
- Y gallu i gyfathrebu'n glir ac yn effeithiol.
- Sgiliau trefnu da
- Y gallu i weithio'n rhagweithiol ac ymateb yn gadarnhaol i gyfleoedd a phrosiectau newydd.
- Gallu sefydlu dealltwriaeth dda o anghenion cwsmeriaid ac awydd i gyflawni safonau uchel

# Cymwysterau, Sgiliau, Galluoedd a Phrofiad:

## (NODIR MEINI PRAWF HANFODOL FEL **(H)**:

- Safon dda o addysg sy'n cyfateb i TGAU A-C/NVQ/ FfCCh 2, neu'r gallu i ddangos cymhwysedd trwy brofiad. (H)
- Mwynhad o fod yn yr awyr agored, drwy gydol y flwyddyn ym mhob tywydd (H)
- Profiad o weithio mewn rôl cefn gwlad. (H)
- Profiad o weithio mewn rôl sy'n wynebu cwsmeriaid
- Tystysgrif Cymorth Cyntaf
- Profiad o weithio ym maes rheoli ystadau neu amgylchedd tebyg
- Bod â diddordeb neu angerdd mewn astudiaethau natur.
- Trwydded llif gadwyn neu dystysgrif i weithredu peiriannau ac offer sy'n gysylltiedig â rheoli tir neu barodrwydd i ymgymryd â chymhwyster
- Y gallu i siarad Cymraeg